SFLSCM119

Cwblhau gweithdrefnau a gofynion mewnforio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chwblhau gweithdrefnau a gofynion mewnforio. Mae'n cynnwys nodi gofynion, cael gwybodaeth a chwblhau dogfennau mewnforio. Mae hefyd yn cynnwys monitro a chydymffurfio â gweithdrefnau mewnforio, nodi problemau a darparu gwybodaeth.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi'r gofynion mewnforio ar gyfer **cyflenwadau**
2. cael gwybodaeth am fewnforio **cyflenwadau**
3. cwblhau dogfennau mewnforio ar gyfer **cyflenwadau**
4. monitro cwblhau gweithdrefnau a gofynion mewnforio
5. nodi ac ymdrin â phroblemau gyda'r gweithdrefnau a'r gofynion mewnforio
6. rhoi gwybodaeth am fewnforio **cyflenwadau** i gydweithwyr a phartïon eraill â diddordeb
7. cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â gweithdrefnau a gofynion mewnforio
2. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad ar brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. sut i gwblhau gweithdrefnau a gofynion mewnforio
5. gweithdrefnau a gofynion mewnforio eich sefydliad
6. y mathau o ddogfennau mewnforio a ddefnyddir gan eich sefydliad
7. y mathau o ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
8. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer mewnforio **cyflenwadau**

Geirfa

Cadwyn gyflenwi: caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Cyflenwadau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

Cwblhau gweithdrefnau a gofynion mewnforio

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLSCM119
Galwedigaethau perthnasol	Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	mewnforio; gweithdrefnau; gofynion; cadwyn gyflenwi